COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 3ydd o CHWEFROR 2020 YN SWYDDFA'R CYNGOR, NEUADD PONTIETS AM 7.00 O'R GLOCH
Presennol: Margaret Rees (yn y gadair),Ian Evans,Tyssul Evans,Geoff Hewitt,Alan Lewis,Geraint Rosser,Linda Williams,Caroline Williams,Meic Bowen,Aled Williams,Tracey James a'r Clerc,Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Heddwyn Jones

2351 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd.Croesawyd Caroline Williams yn ôl ar ôl damwain i'w choes a chydymdeimlwyd a Meic Bowen ar farwolaeth ei Dad-yng-nghyfraith yn ystod y dyddiau diwethaf.

2352 Croesawyd Rhys Price o'r Co-op i'r cyfarfod. Soniodd am ddatblygiad y Siop newydd ym Mhontiets a fydd yn agor tua chanol mis Mehefin. Pwysleisiodd y Cyngor y pwysigrwydd o gael Swyddfa Bost yn rhan o'r datblygiad.

2353 Llongyfarchwyd Ysgolion Carwe,Gwynfryn a Phonthenri ar gael eu categoreiddio yn wyrdd am yr ail flwyddyn. Dim ond 2 ysgol arall sydd yn y category hwn yng Nghwm Gwendraeth.

2354 Cofnodion
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod misol diwethaf ar 06/01/2020 fel rhai cywir.

2355 Materion yn codi.
Tud 1. Cofnod Rhif 2338 - Clwb Cymdeithasol Carwe. - Arhoswn am ddyddiad Cyfarfod Safle oddiwrth y Cyngor Sir
Tud 1. Cofnod Rhif 2338 – Swyddfa Bost Carwe – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Swyddfa Bost.
Tud 2. Cofnod Rhif 2349 – Goleuadau Tai Ffoslas – Arhoswn am ymateb oddiwrth Cwmni Persimmon.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

Cynghorwyr Meic Bowen a Geoff Hewitt yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2356 Côr Merched Glannau'r Gwendraeth - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

Meic a Geoff yn ail ymuno a'r cyfarfod.

Cynghorwr Margaret Rees yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2357 Ysgol y Fro,Llangyndyern - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £377.50 tuag at gostau ychwanegol pan dorrodd bwyler yr Ysgol.

Margaret yn ail ymuno a'r cyfarfod.

Cynghorwr Tyssul Evans yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2358 Neuadd Pontiets – Goleuadau Coeden Nadolig – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

2359 Neuadd Pontiets – Cynnal a chadw'r Neuadd – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £800.

Tyssul yn ail ymuno a'r cyfarfod.

2360 Ambiwlans Awyr Cymru i Blant – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100.

Cynghorwr Ian Evans yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2361 Carway Short Mat Bowls Club – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

Ian yn ail ymuno a'r cyfarfod.

Cynghorwyr Aled Williams,Tyssul Evans a Ian Evans yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2362 Cymdeithas Lesiant Carwe a'r Cylch – Neuadd Carwe - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £800.

Aled,Tyssul a Ian yn ail ymuno a'r cyfarfod.

Cynghorwr Geraint Rosser yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2363 Clwb Rygbi Pontiets – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £950.

Geraint yn ail ymuno a'r cyfarfod.

2364 Bethel Carwe – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2365 Manshed Gwendraeth - Llythyr yn gofyn am gyfraniad ariannol - Penderfynwyd gofyn am fanylion pellach

Gohebiaeth gyffredinol :-

2366 Cyngor Sir Gar – Adran 206 – Tai Ffoslas – Awdurdodwyd y Cynghorwyr Tracey James,Aled Williams , Ian Evans a'r Clerc llanw'r ffurflen cais.

2367 Cyngor Sir Gar - Llwybr Cyhoeddus FP 30/120 - Ffoslas - Estyniad i'r TRO - Nodwyd y Llythyr.

Cynghorwr Ian Evans yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2368 Clwb Pêl-droed a Chriced Carwe - Tal am drydan yn y Parc - £92.97 - Awdurdodwyd y Clerc i dalu'r bil.

2369 Calonau Cymru - Defibrillator wrth Neuadd Pontiets - Awdurdodwyd y Clerc i brynu 'Pads a Batri newydd' . Hefyd ein bod yn gwneud yr un peth yng Ngharwe a Llangyndeyrn pan fo'r angen.

Ceisiadau Cynllunio

2370 a) Rhif y Cais – W/40037 – Mr Eirian Jones – Cwm Einon,Pedair Heol – Rhyddhau Amod 6 – System Dwr Arwynebol Carthffosiaeth– Dim Gwrthwynebiad

b) Rhif y Cais - W/40052 – Mr K.Thomas – Old Barn House,Ponthenri – Adeilad Amaethyddol- Dim Gwrthwynebiad.

c) Rhif y Cais – W/40081 – Mr Peter Watts – Fferm Llwyn Bustach, Crwbin – Estyniad – Dim Gwrthwynebiad.

d) Rhif y Cais - W/40102 - T.Davies - Fferm Pengelli,Pontantwn - Lagŵn 'Slurry' - Dim Gwrthwynebiad.

Gwaharddiad y Cyhoedd

2371 Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod o achos ein bod yn trafod materion cyfrinachol

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis

2372 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Ionawr 2020.Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Adroddiad Ariannol Misol

2373 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-

a) Cyflog y Clerc - £446.63 (Mis Ionawr)
b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Ionawr)
c) Cydnabyddiaeth y Syrfëwr - £110.00 (Mis Ionawr)
ch) HMRC (Treth)- £89.40 (Mis Ionawr)
d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Ionawr)
dd) BT – Ffon y Swyddfa - £50.64 (Mis Ionawr)
e) Paula Clarke – Glanhau Toiledau'r Meinciau (Mis Ionawr)- £182.00
f) Jamie King – Wefan y Cyngor - £80.00
ff) Nwyddau i'r Swyddfa - £58.97
g) Treuliau'r Syrfëwr - £35.00
ng) Ffon y Syrfëwr - £35.00
h) Rent y Llyfrgell - £1500.00
i) Rent y Swyddfa - £2000.00
l) Atgyweirio Goleuadau Nadolig – Maesywern,Carwe - £420.00
m) Stampiau - £31.44
n) Dwr Cymru – Toiledau'r Meinciau - £91.02
o) Glanhau'r Cysgodfannau Bys (£200 yr un * 5) - £1000.00

2374 Parc Gwynfryn - Yn dilyn y Cyfarfod Safle a gynhaliwyd ar 16/01/20 penderfynwyd derbyn amcan-brys Cwmni Wicksteed am ddodrefn newydd o £10762.78 a phris Marcus Dininno o £300.00 am lanhau'r offer sydd yno yn barod.

2375 Parc Pontiets - Yn dilyn y Cyfarfod Safle a gynhaliwyd ar 16/01/20 penderfynwyd ein bod yn aros nes bod Siop newydd y Co-op yn agor cyn symud ymlaen at unrhyw welliannau yn y Parc.Gobeithir y bydd modd edrych am gyfraniadau ariannol tuag at y gwaith hwn.

2376 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - Cafwyd adroddiad gan y Clerc bod y cwyn a wnaethpwyd yn erbyn un o Gynghorwyr y Cyngor wedi ei throi o'r neilltu.

Cyfarfod nesaf:- 2 o Fawrth 2020 yn Swyddfa'r Cyngor,Neuadd Pontiets am 7.00 o'r gloch.

(Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch)

Llofnodwyd…… CADEIRYDD

Dyddiad……